OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1064

# Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018

## RHAN 9

### Hysbysiadau, darparu a chyfnewid gwybodaeth

**Hysbysu am bresenoldeb, neu achos o amau presenoldeb, plâu planhigion penodol**

**42.**—(1) Rhaid i'r meddiannydd neu berson arall sydd â gofal am fangre sy'n dod yn ymwybodol neu'n amau bod unrhyw bla planhigion hysbysadwy yn bresennol yn y fangre, neu unrhyw berson arall sydd, wrth gyflawni ei ddyletswyddau neu ei fusnes, yn dod yn ymwybodol neu'n amau bod pla planhigion hysbysadwy yn bresennol mewn unrhyw fangre, hysbysu Gweinidogion Cymru neu arolygydd ar unwaith ei fod yn bresennol neu yr amheuir ei fod yn bresennol.

(2) Caniateir i hysbysiad o dan baragraff (1) gael ei roi ar lafar yn gyntaf, ond rhaid iddo gael ei gadarnhau yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

(3) Yn yr erthygl hon, ystyr "pla planhigion hysbysadwy" ("*notifiable plant pest*") yw—

(a) pla planhigion, ac eithrio pla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 17—

(i) sydd o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1;

(ii) sydd o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 3 o Ran A o Atodlen 2;

(iii) sydd o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 3 o Ran B o Atodlen 2 ac sy'n bresennol ar ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yn y cofnod mewn cysylltiad â'r pla planhigion hwnnw yng ngholofn 2 o Ran B o Atodlen 2, neu yr ymddengys i arolygydd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â deunydd perthnasol o'r fath; neu

(iv) er nad yw o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1 na 2, nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac sy'n debygol o fod yn niweidiol i blanhigion ym Mhrydain Fawr;

(b) pla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 17—

(i) sy'n isrywogaeth neu'n fath sy'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac a ganfuwyd ym mangre masnachwr planhigion cofrestredig;

(ii) sy'n isrywogaeth neu'n fath nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac a ganfuwyd mewn unrhyw fangre; neu

(iii) a bennir hefyd yng ngholofn 3 o Ran A o Atodlen 2 ac sy'n bresennol ar ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yn y cofnod mewn cysylltiad â'r pla planhigion hwnnw yng ngholofn 2 o Ran A o Atodlen 2, neu yr ymddengys i arolygydd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â deunydd perthnasol o'r fath.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn dod yn ymwybodol o bresenoldeb *Xylella fastidiosa* (Wells et al.) neu o amheuaeth ei fod yn bresennol, mewn unrhyw fan neu ardal yng Nghymru, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw berson sydd â phlanhigion a allai fod wedi eu heintio â *Xylella fastidiosa* (Wells et al.) o dan ei reolaeth yn cael ei hysbysu ar unwaith—

(a) ei fod yn bresennol neu yr amheuir ei fod yn bresennol;

(b) am y canlyniadau posibl sy'n codi o'i bresenoldeb neu'r amheuaeth ei fod yn bresennol; ac

(c) am y mesurau sydd i'w cymryd o ganlyniad i hynny.

**Hysbysu am y tebygolrwydd y bydd plâu planhigion neu ddeunydd perthnasol yn mynd i barth rhydd, neu eu bod yn bresennol yno**

**43.**—(1) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol am barth rhydd yng Nghymru hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith am unrhyw eitem hysbysadwy y mae'n gwybod neu'n amau—

(a) ei fod yn debygol o fynd i'r parth rhydd; neu

(b) ei fod yn bresennol yn y parth rhydd ac nad yw wedi ei glirio o ofal o dan y Ddeddf Dollau.

(2) Caniateir i hysbysiad o dan baragraff (1) gael ei roi ar lafar yn gyntaf, ond rhaid iddo gael ei gadarnhau yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

(3) Yn yr erthygl hon—

(a) mae i "parth rhydd" yr un ystyr ag a roddir i "free zone" yn y Ddeddf Dollau;

(b) ystyr "eitem hysbysadwy" ("*notifiable item*") yw—

(i) pla planhigion sydd o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1 neu yng ngholofn 3 o Atodlen 2;

(ii) pla planhigion, er nad yw wedi ei bennu yn Atodlen 1 na 2, nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac sy'n debygol o fod yn niweidiol i blanhigion ym Mhrydain Fawr; neu

(iii) deunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 3 sy'n tarddu o wlad a bennir yn y cofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno;

(c) mae i "yr awdurdod cyfrifol" yr un ystyr ag a roddir i "the responsible authority" yn y Ddeddf Dollau.

**Yr wybodaeth sydd i'w rhoi**

**44.**—(1) Caiff arolygydd neu unrhyw un arall o swyddogion Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad ysgrifenedig, ei gwneud yn ofynnol i berson priodol roi i'r arolygydd neu'r swyddog, o fewn yr amser a bennir yn yr hysbysiad, unrhyw wybodaeth y gall y person feddu arni o ran—

(a) y planhigion a dyfwyd neu'r cynhyrchion a gafodd eu storio ar unrhyw adeg yn y fangre y mae hysbysiad wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â hi o dan y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraff (4)(b); ac

(c) y personau sydd wedi bod, neu'n debygol o fod wedi bod, â'r pla planhigion neu'r deunydd perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraff (4)(b) yn eu meddiant neu o dan eu gofal.

(2) Rhaid i'r amser y mae'n ofynnol i'r wybodaeth gael ei rhoi i'r arolygydd neu'r swyddog arall o'i fewn fod yn rhesymol.

(3) Rhaid i berson priodol gyflwyno unrhyw drwydded, datganiad swyddogol, tystysgrif, pasbort planhigion, cofnod, anfoneb neu ddogfen arall sy'n ymwneud â phla planhigion neu unrhyw ddeunydd perthnasol a bennir yn yr hysbysiad i'w archwilio gan yr arolygydd neu'r swyddog arall.

(4) Yn yr erthygl hon, ystyr "person priodol" ("*appropriate person*") yw—

(a) person sy'n berchen ar y fangre, meddiannydd y fangre neu berson arall sydd â gofal am y fangre y mae hysbysiad wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â hi o dan y Gorchymyn hwn;

(b) person sydd, neu sydd wedi bod, neu y mae gan yr arolygydd neu'r swyddog amheuaeth resymol ei fod, neu ei fod wedi bod, yn meddu ar y canlynol neu â gofal am y canlynol—

(i) pla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1 neu yng ngholofn 3 o Atodlen 2;

(ii) pla planhigion, er nad yw wedi ei bennu yn Atodlen 1 na 2, nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac sy'n debygol o fod yn niweidiol i blanhigion ym Mhrydain Fawr;

(iii) unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n cario pla planhigion y cyfeirir ato ym mharagraff (i) neu (ii), neu sydd wedi ei heintio ag ef; neu

(iv) unrhyw ddeunydd perthnasol y mae'r arolygydd neu'r swyddog yn gwybod neu'n amau ei fod wedi ei lanio yng Nghymru neu ei allforio o Gymru; neu

(c) person sydd, fel arwerthwr, gwerthwr neu fel arall, wedi gwerthu, wedi cynnig ar gyfer ei werthu neu wedi gwaredu fel arall bla planhigion y cyfeirir ato yn is-baragraff (b)(i) neu (ii).

**Pŵer i rannu gwybodaeth at ddibenion y Gorchymyn**

**45.**—(1) Caiff Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ddatgelu unrhyw wybodaeth y maent yn meddu arni i Weinidogion Cymru at ddibenion y Gorchymyn hwn.

(2) Nid yw paragraff (1) yn rhagfarnu unrhyw bŵer arall sydd gan y Comisiynwyr i ddatgelu gwybodaeth.

(3) Ni chaiff unrhyw berson, gan gynnwys un o weision y Goron, ddatgelu unrhyw wybodaeth a gafwyd gan y Comisiynwyr o dan baragraff (1)—

(a) os yw'r wybodaeth yn ymwneud â pherson y mae ei fanylion adnabod wedi eu pennu yn y datgeliad, neu y gellir eu casglu o'r datgeliad;

(b) os yw'r datgeliad at ddiben heblaw'r un a bennir ym mharagraff (1); ac

(c) os nad yw'r Comisiynwyr wedi rhoi eu cydsyniad i'r datgeliad ymlaen llaw.